

## OWENS, OWEN (1792 - 1862), gweinidog gyda'r Annibynwyr ac ysgolfeistr

**Enw:** Owen Owens

**Dyddiad geni:** 1792

**Dyddiad marw:** 1862

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr ac ysgolfeistr

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg

**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd ym Maes Angharad, Dolgellau, 21 Awst 1792. Derbyniwyd ef yn aelod gan **Cadwaladr Jones** yn Nolgellau yn 1811. Bu'n cadw ysgol yn y cylch am ysbaid, a symudodd at yr un gorchwyl i Ddinas Mawddwy, lle y dechreuodd bregethu. Yn 1821 urddwyd ef yn weinidog eglwysi Rhesycae a Salem, Sir y Fflint, ac yno y treuliodd weddill ei oes. Bu farw 13 Hydref 1862, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys plwyf Nannerch. Cadwai ysgol ddyddiol yn Rhesycae yn ogystal â gweinidogaethu; llafuriodd yn galed i ddiddylleu capelau a theithiodd lawer i'r amcan hwn. Adnabyddid ef fel ' pregethwr synhwyrol ' a ' Chalfin cymedrol.' Ag ystyried ei anfanfeision, llwyddasai i ennill mesur helaeth o ddiwylliant; lluniodd erthyglau lu i'r *Dysgedydd* a chyhoeddodd *Holwyddoreg yr Ymneillduwyr Protestanaidd, gan y Parch. S. Palmer a'i helaethu gan O. Owens, Rhesycae*. Cynrychiolai y teip gorau o weinidog cefn gwlad yn yr oes honno.

### Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen** , (1890 - 1973)

### Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdŷr 1867-70)*, ii, 345-6

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iv, 240-1

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734105

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Owen, R. G., (1953). OWENS, OWEN (1792 - 1862), gweinidog gyda'r Annibynwyr ac ysgolfeistr. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-OWE-1792>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government